y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 42 DYDD GWENER, HYDREF 16, 2009 Pris 40c

Y GYMANFA GYFFREDINOL

Gair gan ein Llywydd Newydd

Yn enedigol o Gaernarfon, cefais fy magu yn Engedi, un o bedair eglwys Bresbyteraidd Gymraeg y dref, lle 'roedd fy rhieni yn aelodau ffyddlon. Mynychais yr Ysgol Gynradd i Ferched ac yna'r Ysgol Ramadeg, cyn dilyn cwrs ymarfer dysgu pedair blynedd yn y Coleg Normal, Bangor, ac ennill gradd B.Add. Cefais y fraint o gael fy mhenodi i swydd ddysgu yn fy hen ysgol gynradd, lle yr arhosais am ddeg mlynedd cyn gadael i fynd i'r weinidogaeth.

Yn gasglwraig wrth reddf, mae'n siŵr bod gennyf ormod o ddiddordebau a dim digon o amser i ganlyn yr un ohonynt yn iawn. Rwy'n casglu llyfrau a thrugareddau hanes lleol yn ogystal â chardiau post. Y cardiau post rwy'n eu trysori fwyaf yw'r rhai a gynhyrchwyd yn ystod Diwygiad 1904/05 ac sy'n darlunio Evan Roberts a'i ffrindiau mewn amryw o leoedd. Rwyf hefyd yn mwynhau ffotograffiaeth, garddio, ysgrifennu a gwneud cardiau.

Roedd Engedi yn eglwys fyrlymus a gweithgar pan oeddwn yn blentyn a chanolwyd fy mywyd cymdeithasol o gwmpas y capel yn ystod fy mlynyddoedd cynnar. Mae gennyf atgofion melys iawn o'r blynyddoedd hynny pan gafodd fy ffydd ei meithrin a'i datblygu, ac yn 1984 cefais fy ordeinio'n flaenor. Roedd Duw yn gweithio ynof drwy ei bobl oedd yn gyfeillion i mi. Fy ngweinidog ar y pryd oedd y Parchg Trefor Jones, un yr wyf yn ei barchu'n fawr ac yr wyf bellach yn cael y fraint o fod yn weinidog arno.

Er fy mod yn mwynhau fy ngwaith fel athrawes, deuthum yn raddol ymwybodol bod llwybrau eraill yn agor o'm blaen, ac un dydd fe sylweddolais fod gan Dduw gynlluniau eraill ar fy nghyfer. Oedd o yn fy ngalw i'r weinidogaeth? Na, doedd bosib! Gwraig oeddwn i, a chennyf swydd ddiogel a chyflog sefydlog. Ond yn fuan roeddwn yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth ran-amser. Daeth yn glir, fodd bynnag, fod Duw eisiau mwy ac roedd yn fwyfwy anodd anwybyddu ei alwad.

Felly ym 1983 gadawais fy swydd dysgu a dechreuais gwrs B.D. tair blynedd yn y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth, cyfnod a werthfawrogais yn fawr oherwydd mwynheais fy astudiaethau yno yn ogystal â chwmnïaeth y myfyrwyr a'r staff. Y Prifathro ar y pryd oedd y Parchg Ddr Elfed ap Nefydd Roberts. Mawr yw fy nyled iddo. Roeddwn yn drist iawn pan gaewyd y Coleg. Dylai pob galwedigaeth, gan gynnwys y Weinidogaeth Gristnogol, sicrhau addysg a hyfforddiant o'r ansawdd gorau posibl, ac fel mae'n rhaid i athro gael ei hyfforddi i ddysgu, ac y mae'n rhaid i ddoctor neu nyrs ddeall egwyddorion, technegau ac arferion meddygaeth, rwy'n credu'n gryf bod rhaid i weinidogion hefyd gael eu hyfforddi a'u haddysgu.

Y Barchedig Gwenda Richards

Tra 'roeddwn yn Aberystwyth cyfarfûm Elwyn, a bu i ni briodi ym 1987. O fewn cyfnod byr o ddau fis, cefais fy ordeinio, fy sefydlu ac fe briodais!

Wedi gadael Aberystwyth, derbyniais alwad i Eifionydd, i ofalaeth o dri chapel ym Mhorthmadog, Borth y Gest a Garndolbenmaen. Treuliais bron i bedair blynedd ar ddeg hapus iawn yno, a thrwy weddi a dyfalbarhad, erbyn diwedd fy amser yno, roedd y ddwy gynulleidfa Bresbyteraidd Gymraeg ym Mhorthmadog wedi uno, a chapel newydd yn cael ei adeiladu ar safle Capel y Tabernacl. Mae Capel y Porth nawr yn eglwys lewyrchus o dan weinidogaeth y Parchg Gareth Edwards.

Yn 2001 cefais alwad yn ôl i nhref enedigol, i fod yn weinidog capel Seilo yng Nghaernarfon. Erbyn hynny roedd capel Engedi wedi cau a'r aelodau wedi ymuno yn Seilo. Wedi cryn bendroni, myfyrio a gweddïo derbyniais yr alwad. Mae'n fraint cael gweinidogaethu i fy mhobl fy hun, â llawer ohonynt wedi fy adnabod ar hyd fy oes. Yn ôl un dywediad, nid yw proffwyd yn cael ei dderbyn yn ei wlad ei hun, ond yn ffodus, nid felly y mae yng Nghaernarfon. Yn fwy diweddar, rwyf hefyd wedi dod yn weinidog capel bychan cefn gwlad ym mhentref cyfagos y Waunfawr. Fel gofalaeth, nid ydym yn gwbl ddi-drallod, ond credwn y gallwn, trwy weddi a gwaith caled, orchfygu ein problemau.

Dair blynedd yn ôl cefais fy ethol yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, ac roedd hynny ynddo'i hun yn anrhydedd annisgwyl. Gyda gostyngeiddrwydd diffuant rwy'n esgyn i'r gadair fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Teimlaf nad wyf wedi gwneud unrhyw beth i haeddu'r anrhydedd yma, ond rwy'n ei derbyn yn wylaidd ac yn gofyn am eich gweddïau yn ystod fy nhymor fel Llywydd. Mae amryw yn cymryd mai fi yw'r wraig gyntaf i fod yn llywydd, ond nid felly y mae. Yn 1983 cafodd Miss Mary Roberts ei phenodi (nid ei hethol) yn Llywydd y Gymanfa fel arwydd o werthfawrogiad o'i holl waith i'r Cyfundeb. Yn ddiweddar dathlodd ei phenblwydd yn gant oed ac mae'n byw yng Nghartref Bryn y Môr yn Sir Fôn.

Gofynnwyd i mi beth yw'r amcanion a'r sialensiau sy'n fy wynebu dros y flwyddyn nesaf? Fy ngobaith yw na cheir gormod o wyntoedd croesion, ac y bydd modd i mi gynorthwyo i hybu parch a chefnogaeth i'r eglwys leol o fewn y Cyfundeb. Fel erioed, mae'n rhaid i'r Eglwys heddiw frwydro'n galed yn erbyn "cynllwynion y diafol", fel y dywed Paul, a newid ac addasu er mwyn goroesi mewn amgylchfyd sy'n aml yn teimlo'n estron. Ond yng nghanol newid a gofynion cyfreithiol, gweinyddol ac ariannol cynyddol, ni ddylai'r eglwys leol orfod teimlo ei bod byth a beunydd yn brwydro brwydrau mewnol er mwyn goroesi, a hynny i'r fath raddau fel bod ei haelodau yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r Cyfundeb. Os

(parhad ar dudalen 8)

Y Gymanfa Gyffredinol (parhad)

nad ydym fel enwad yn gallu uno ein pobl ein hunain ni fyddwn yn effeithiol ein cenhadaeth. Nid wrth nifer yr aelodaeth na golwg y cyfrif banc y dylid mesur eglwys, ond yn hytrach yng ngoleuni'r cariad a'r tosturi a amlygir trwy wasanaeth.

Yr adnodau yr wyf wedi myfyrio arnynt wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, yw'r geiriau yma gan yr Apostol Paul, maent wedi bod yn gynhaliaeth i mi ers i mi fod yn y weinidogaeth – ***"Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nag angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." (Rhufeiniaid 8: 38-39)***

YMWELWYR O'R INDIA

Parchg Hmar Sanghkhuma, Maesteg
Parchg Lalramliana Pachuau, Llywydd Eglwys Bresbyteraidd yr India
Parchg Lalramliana Pachuau, Ysgrifennydd Gweinyddol Eglwys Bresbyteraidd yr India

Y LLYWYDD ETHOLEDIG

Y Parchg Iain Hodgins

CAPEL Y CWM, LLANGERNYW

DATHLU CANMLWYDDIANT AIL-ADEILADU'R CAPEL (1909-2009)

Cafwyd diwrnod arbennig iawn yng Nghapel y Cwm, Llangernyw ddydd Sul, Medi 20fed. Yn y bore, cafwyd gwasanaeth undebol ac ychydig o hanes yr achos gan y Blaenoriaid, Daeth Elfryn (Tyddyn Ucha gynt) o'r Alban atom a rhoddodd sgwrs ddifyr am ei hanes yn blentyn yn y capel. Croesawyd ei wraig a'i fab hefyd.

Gweinyddwyd y Cymun, gan ein Gweinidog, y Parch. R.O. Jones ar ôl cyflwyno anerchiad amserol i ni. Croesawyd Mrs Lillian Jones o Ddinbych a'i mab Arwel atom ac anfonwyd ein cofion cynnes at y Parch. George Emlyn Jones ei phriod, a fu'n weinidog yma am bum mlynedd, sef ei weinidogaeth gyntaf.

Yng nghyfarfod y pnawn, daeth tyrfa dda ynghyd i wasanaeth ieuenctid a chafwyd gair gan Glenys Elwy am ei hatgofion. Roedd ei theulu yn un o'r rhai mwyaf gweithgar yng Nghapel y Cwm. Croesawyd ei phriod gyda hi.

Roedd Laura Jane Roberts, Llywydd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy yn methu a bod yn bresennol oherwydd anhwylustod i'w llygad. Hefyd roedd y Parch. Goronwy Prys Owen, cyn weinidog, yn ymddiheuro ei fod yn methu bod yn bresennol. Gwnaed casgliad teilwng iawn yn ystod y dydd o £235 tuag at Ymchwil Cancr a thalwyd y diolchiadau gan y Parch. R.O. Jones.

Cafwyd cyfle i weld arddangosfa o luniau a dogfennau yn y Festri yn y bore a'r ganolfan y pnawn. Paratowyd te ardderchog i bawb yn y ganolfan gan ferched y capel a thorrwyd y gacen pen-blwydd gan un arall o hen blant y capel sef Gwyneth Hendre Ddu, hithau'n un o deuluoedd selocaf a gweithgar y capel. Cafwyd tipyn o atgofion ganddi hithau.

Yn dilyn, cafwyd atgofion diddorol gan John Hughes, o gapel Bethabara a gair ar ran Capel Cefn Coch gan Gwilym Williams, ac ar ran Capel Gwytherin gan Tecwyn Evans.

Roedd yn braf gweld cynifer o hen blant y capel yn ôl yn ein mysg a diolch i bawb am eu presenoldeb a'u diddordeb a'u parodrwydd i gymryd rhan ar y diwrnod i'w gofio.

Ieuenctid yn dathlu Canmlwyddiant Capel y Cwm Llangernyw

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau a hysbysebion i'r Golygydd, Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Lôn Ddewi, Caernarfon, Gwynedd LL55 1ER. Ffôn: (01286) 672018. Rhif e-bost: goleuad@btconnect.com

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.

ISSN 0017-1700